OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2139

# Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013

## RHAN 2

Gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr a gallu i olrhain yng Nghymru

**Gofynion gwybodaeth i ddefnyddwyr a gallu i olrhain**

**4.**—(1) Yn y Rhan hon—

(a) ystyr "gofyniad gwybodaeth i ddefnyddwyr" ("*consumer information requirement*") yw gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (7); a

(b) ystyr "gofyniad gallu i olrhain" ("*traceability requirement*") yw gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), yn ddarostyngedig i baragraff (7).

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), y gofynion yw—

(a) gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 (darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr) fel y'i darllenir ar y cyd â'r darpariaethau canlynol o Reoliad 2065/2001—

(i) Erthyglau 2 a 3 (dynodiad masnachol),

(ii) Erthygl 4(1) a (3) (dull cynhyrchu),

(iii) Erthygl 5 (cylch y ddalfa), a

(iv) Erthygl 6 (gwerthiannau cyfun);

(b) gofyniad a bennir yn Erthygl 58(6) o Reoliad 1224/2009 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthyglau 67(13) a 68 o Reoliad 404/2011.

(3) At ddibenion paragraff (1)(b), y gofynion yw Erthygl 58(2), (3) a (5) o Reoliad 1224/2009 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 58(7) o'r Rheoliad hwnnw ac Erthygl 67(1) i (3) a (5) i (13) o Reoliad 404/2011.

(4) Nid yw'r gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 4(1) o Reoliad 2065/2001 yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 4(2) o Reoliad 2065/2001.

(5) Nid yw'r gofyniad a bennir yn Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000 fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 5(1)(c) o Reoliad 2065/2001 yn rhagwahardd nodi amrywiol Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd fel y'i disgrifir yn Erthygl 5(1)(c) o Reoliad 2065/2001.

(6) Nid yw'r gofyniad y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(a) yn gymwys o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff olaf Erthygl 4(1) o Reoliad 104/2000, fel y'i darllenir ar y cyd â brawddeg olaf Erthygl 7 o Reoliad 2065/2001, lle nad yw pob pryniant yn fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 20 ewro mewn sterling neu, yn achos gwerthiant uniongyrchol o gwch pysgota, 50 ewro.

(7) Nid yw'r gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (2)(b) a (3) yn gymwys mewn amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 58(8) o Reoliad 1224/2009, fel y'i darllenir ar y cyd ag Erthygl 67(14) o Reoliad 404/2011, lle nad yw'r gwerthiant yn fwy na'r hyn sy'n cyfateb i 50 ewro y diwrnod mewn sterling.